

Dosbarthu pysgod cregyn

Sut mae ardaloedd cynhyrchu yn cael eu dosbarthu, y dull trin a sut i wneud cais am ddsbarthiad.

Mae dosbarthu ardal gynhyrchu yn pennu pa driniaeth sy'n ofynnol cyn y gellir rhoi molysgiaid dwygragenog byw ar y farchnad i'w bwyta gan bobl.

Mae ardaloedd cynhyrchu ac ailosod molysgiaid dwygragenog byw yn cael eu dosbarthu yn ôl y lefelau E. coli sydd wedi'u canfod o fewn crawd pysgod cregyn.

Lefelau o E. coli a ganiateir

Mae lefelau E. coli yn cael eu mesur fesul 100g o gnawd.

Ym mhob achos, mae'r safonau iechyd wedi'u nodi yn:

- Atodiad III Rheoliad y Gymuned Ewropeaidd 853/2004
- Atodiad II Rheoliad y Gymuned Ewropeaidd 854/2004

Rhaid hefyd bodloni meini prawf microbiolegol y cynnyrch terfynol a bennir yn Rheoliad Ewropeaidd 2073/2005.

Bydd yr ardal gynhyrchu yn cael ei dosbarthu fel A, B neu C. Ardaloedd A yw'r lleiaf halogedig a C yw'r mwyaf. Mae lefel y driniaeth sy'n ofynnol i gael gwared ar halogiad o'r molysgiaid dwygragenog byw ar ôl cynaeafu yn dibynnu ar y dosbarthu hwn. Os nad oes modd cyflawni dosbarth C oherwydd lefelau halogi sy'n uchel, yna efallai y bydd cynaeafu o'r ardal yn cael ei wahardd.

Dyma'r safonau y mae'n rhaid eu cyflawni a'r lefel o driniaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob dosbarthiad:

Dosbarth A

- angen o leiaf 10 sampl bob blwyddyn
- rhaid i 80% o ganlyniadau samplu fod yn llai na neu'n hafal i 230 E. coli/100g
- ni all unrhyw ganlyniadau fod yn fwy na 700 E. coli/100g

Gellir cynaeafu molysgiaid dwygragenog byw ar gyfer eu bwyta gan bobl yn uniongyrchol os yw gofynion safonol y cynnyrch terfynol yn cael eu bodloni.

Dosbarth B

- angen o leiaf 8 sampl bob blwyddyn
- rhaid i 90% o ganlyniadau samplu fod yn llai na neu'n gyfartal â 4600 E. coli/100g
- ni all unrhyw ganlyniad sampl fod yn fwy na 4600 E. coli/100g

Gellir cyflenwi molysgiaid dwygragenog byw i'w bwyta gan bobl ar ôl un o'r prosesau canlynol:

- puro mewn sefydliad cymeradwy
- ailosod am o leiaf mis mewn ardal ailosod Dosbarth A dosbarthedig

- proses trin a gwres wedi'i chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd

Mae yna system ddosbarthu hirdymor ar gyfer gwelyau dosbarth B yng Nghymru a Lloegr. Nod y system yw dangos mwy o sefydlogrwydd yn y dosbarthiadau sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth dros gyfnod o bum mlynedd yn hytrach na'r tair blynedd safonol.

Dosbarth C

- angen o leiaf 8 sampl bob blwyddyn
- rhaid i bob canlyniad sampl fod yn llai na neu'n hafal i 46,000 E. coli/100g

Gellir ond gwerthu molysgiaid dwygragenog byw ar gyfer eu bwyta ar ôl cwblhau un o'r prosesau canlynol:

- ailosod am o leiaf dau fis mewn ardal ailosod dosbarth B cymeradwy cyn cael triniaeth mewn canolfan buro gymeradwy
- ailosod am o leiaf dau fis mewn ardal ailosod dosbarth A cymeradwy
- ar ôl proses trin a gwres sydd wedi'i chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd

Ardaloedd sydd wedi'u gwahardd

Ni ddylai molysgiaid o ardaloedd sydd â chanlyniadau lefel gwaharddedig (mwy na 46,000 E. coli/100g) fod yn destun cynhyrchu neu gael eu cynaeafu.

Puro pysgod cregyn

Gellir puro pysgod cregyn trwy eu dal mewn tanciau pwrpasol o dd?r môr glân neu artiffisial. Mae'r pysgod cregyn yn cael eu gosod mewn d?r am yr amser angenrheidiol i leihau halogiad i'w gwneud yn addas i'w bwyta gan bobl. Mae'r amodau d?r yn annog y pysgod cregyn i hidlo halogion fel E. coli.

Mae canolfannau dosbarthu yn ardal ar neu oddi ar y lan sy'n prosesu molysgiaid dwygragenog byw sy'n addas i'w bwyta gan bobl.

Rhaid i bob sefydliad puro a dosbarthu gael eu cymeradwyo gan eich awdurdod lleol. Mae'n rhaid i chi fodloni'r gofynion penodol ar gyfer canolfannau puro a dosbarthu yn Atodiad III o Reoliad (CE) 853/2004.

I gael rhagor o wybodaeth am buro a chymeradwyo, edrychwch ar ein Canllawiau Puro.

[Canllawiau puro ar gyfer awdurdodau lleol](#) (514.19 KB)

Proses ymgeisio

Llenwi'r ffurflen

Dylai'r ymgeisydd a'r awdurdod lleol gwblhau'r ffurflen gais ardal gynhyrchu ac ailosod.

Mae angen anfon y ffurflen hon atom ni gyda map addas ac unrhyw wybodaeth ategol berthnasol arall fel y nodir ar y ffurflen.

Y fformat a ffefrir yw copi o:

- OS 1:25,000
- Map 1: 50,000
- Siart y Morlys gyda safle a maint y gwelyau pysgod cregyn wedi eu marcio'n glir

[Application form for classification of shellfish harvesting area](#) (681.92 KB)

[Application checklist for shellfish](#) (19.61 KB)

Ar ôl i chi anfon y ffurflen

Ar ôl i'ch cais ddod i law, byddwn ni'n ei wirio ac yn gofyn am rhagor o wybodaeth neu eglurhad os bydd angen. Unwaith y byddwn ni'n fodlon, byddwn ni'n ei hanfon at ein contractwr i gynnal asesiad Pwynt Monitro Cynrychiolydd Dros Dro os bydd angen.

Asesiad Pwynt Monitro Cynrychiolydd Dros Dro yw asesiad o'r ffynonellau llygredd sy'n effeithio ar yr ardal, er mwyn dod o hyd i bwyntiau samplu priodol a phennu cynllun samplu.

Mae angen deg sampl o leiaf wythnos ar wahân ar gyfer dosbarthiad dros dro. Ar ôl blwyddyn lawn o samplu, byddwch chi'n derbyn dosbarthiad blynyddol.

Mewn rhai achosion, gellir rhoi dosbarthiad rhagarweiniol. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddsbarthu ar gael yn y protocolau dosbarthu.

Protocol dosbarthu

Pan fydd gwely pysgod cregyn wedi cau am gyfnod amhenodol, efallai y bydd angen samplau ychwanegol cyn y gellir ailagor y gwely. Efallai y bydd yn rhaid i'r broses ddsbarthu ddechrau eto os yw ar gau am nifer o flynyddoedd neu os yw wedi'i ddi-ddosbarthu.

Gallwch chi wneud cais am ddsbarthiad yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio ein ffurflen gais.

[Protocol ar gyfer dosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod pysgod cregyn yng Nghymru a Lloegr](#)

Ymdrin â chanlyniadau uchel

Mae grwpiau gweithredu lleol yn bodoli yng Nghymru a Lloegr.

Mae grŵp gweithredu lleol yn cael ei arwain gan eich awdurdod lleol a gall gynnwys grwpiau diwydiant lleol, pysgotwyr neu gasglwyr pysgod cregyn. Mae'r grŵp hwn yn ymdrin â chanlyniadau uchel ac yn ystyried a ddylid:

- cau'r gwely
- hysbysu'r cynaeafwyr

Gallai grwpiau gweithredu lleol hefyd gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

Gallai grwpiau gweithredu lleol hefyd gysylltu ag Adnoddau Naturiol Cymru.

Cynlluniau gweithredu

Penderfynir ar gynlluniau gweithredu lleol gan ddefnyddio ffactorau ac amodau lleol. Bydd faint o fanylion yn y cynllun yn dibynnu ar:

- nifer a maint y gwelyau pysgod cregyn dan gyfrifoldeb yr awdurdod bwyd lleol
- unrhyw amodau lleol arbennig
- nifer y rhanddeiliaid dan sylw

Camau gweithredu

Mae camau gweithredu yn berthnasol i bob dosbarth o welyau pysgod cregyn. Byddant yn cael eu gweithredu pan fydd eich canlyniadau yn uwch na'r lefel a ganiateir.

Mae'n bosibl y caiff gwely ei israddio neu'i gau dros dro fel rhan o fesurau rheoli tymor byr yn ystod cam gweithredu.

Er mwyn ailagor y gwely yn ei ddsbarthiad blaenorol, mae'n rhaid cymryd dau sampl boddhaol yn olynol o leiaf saith diwrnod ar wahân.

Rhestrau dosbarthu cyfredol

Canlyniadau monitro dosbarthu

- [England and Wales](#)